cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach 2024/25

# Nodiadau Ymgeisio

Rydym yn croesawu ceisiadau Cymraeg. Ni fydd ymgeisio yn Gymraeg yn oedi eich cais.

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab**

ALG/APP/N/2425/CY

# Sut i ddefnyddio'r nodiadau hyn

Rhannwyd y nodiadau hyn yn adrannau yn yr un modd â'r Ffurflen Gais, er mwyn i chi ddod o hyd i'r wybodaeth y byddwch ei hangen yn gyflymach. Dylech gadw'r nodiadau hyn, maent yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth ddefnyddiol a allai fod o gymorth trwy gydol y flwyddyn.

Pan welwch yr eicon hwn yn y ffurflen gais, mae'r nodiadau hyn yn cynnwys **gwybodaeth** ychwanegol i'ch helpu.

Ble gwelwch yr eicon yma yn y ffurflen gais, mae'n golygu bod angen i chi anfon **dogfennau ategol**. Bydd y nodiadau hyn yn dweud wrthych yn union beth ydym ei angen gennych. Dylech anfon **llungopïau** o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

## Beth yw Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach?

Mae'n darparu cyllid i helpu talu costau'ch addysg os ydych yn 19 oed neu'n hŷn. Os ydych yn astudio dan drefniant amser llawn, gallech gael taliadau o hyd at £1,500 y flwyddyn neu os ydych yn astudio dan drefniant rhan-amser, gallech gael hyd at £750 y flwyddyn.
**Ni fydd cael y grant hwn yn effeithio ar unrhyw fudd-daliadau yr ydych chi neu'ch teulu yn eu cael yn barod.**

## Pwy fydd yn gallu cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach?

Gallech gael y grant hwn os yw'r **holl** ddatganiadau canlynol yn berthnasol i chi:

- Os ydych yn 19 neu'n hŷn ar 1 Medi 2024.
- Gallwch fodloni'r holl ofynion cenedligrwydd a manylion preswylio gofynnol.
- Rydych yn byw yng Nghymru, ac ni wnaethoch symud yno at ddibenion addysg yn unig.
- Rydych yn byw mewn cartref y mae ei incwm yn £18,370 neu'n llai.
- Rydych yn astudio ac yn symud ymlaen ar gwrs addysg bellach cymwys. Mae cyrsiau yn cynnwys Sgiliau Byw'n Annibynnol neu, os ydych chi'n astudio yn Lloegr, Paratoi ar gyfer Bywyd fel Oedolyn.
- Rydych yn astudio cwrs sy'n cynnwys o leiaf 275 o oriau astudio.

## Help a gwybodaeth ychwanegol

- I weld yr wybodaeth ddiweddaraf, trowch at **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab**
- Os bydd angen i chi siarad gyda rhywun am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach, gallwch ein ffonio ar **0300 200 4050**.
- Gallwch gael fersiynau Braille, print mawr neu sain o unrhyw rai o'n ffurflenni neu'n canllawiau. Os bydd angen i chi gael fersiynau o'r fath, gallwch ofyn amdanynt trwy anfon e-bost gan nodi'ch enw, eich cyfeiriad a manylion y ffurf fydd angen i chi ei chael, at **brailleandlargefonts@slc.co.uk** neu ffonio **0141 243 3686**.

## Unrhyw beth arall?

Os bydd unrhyw rai o'ch amgylchiadau yn newid yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd angen i chi ein ffonio ni ar **0300 200 4050** a rhoi gwybod i ni.

Os ydych chi'n ymgeisio wedi dechrau eich cwrs ac mae amgylchiadau eich cartref wedi newid yn y cyfamser, cysylltwch â ni ar **0300 200 4050** gan y gallem fod angen rhagor o fanylion.

## Y Lluoedd Arfog

Os ydych chi, eich rhiant(rhieni) neu'ch partner yn gwasanaethu yn y lluoedd arfog, rhaid i chi wneud cais am gyllid i fyfyrwyr yn y wlad yn y DU lle'r oeddech yn preswylio fel arfer pan wnaethoch chi/ef/hi ymrestru, oni bai eich bod yn byw mewn rhan arall o'r DU yn barhaol.

# Beth fydd angen i chi ei wneud

**3 cham er mwyn cael Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach.**

### Llenwi a dychwelyd eich cais.

Cofiwch dalu'r pris postio cywir a chael prawf postio.

### Byddwn yn asesu'ch cais ac yn anfon llythyr Dyfarniad Amodol atoch.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd hwn yn nodi faint y gallech ei gael.

### Rydych yn llofnodi Cytundeb AB GDLIC.

Unwaith y byddwch yn derbyn eich llythyr Dyfarniad Dros Dro, mae angen i chi lofnodi Cytundeb AB GDLIC yn eich ysgol neu goleg.

### Byddwn yn anfon llythyr Dyfarniad Terfynol atoch.

Pan fydd eich ysgol neu goleg yn rhoi gwybod i ni eich bod wedi llofnodi'ch Cytundeb AB GDLIC, bydd hyn yn cadarnhau faint fyddwch chi'n ei gael.

### Byddwch yn mynychu eich cwrs ac yn cael eich talu.

## Cael eich talu

Byddwch yn cael eich talu unwaith y tymor, i mewn i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd yn uniongyrchol. Bydd angen i chi sicrhau bod gennym eich manylion cyfrif diweddaraf bob amser, neu ni allwn eich talu.

**! Os byddwch yn tynnu yn ôl o'ch cwrs yn ystod y flwyddyn academaidd, bydd angen i chi ein ffonio. Efallai y bydd rhaid i chi ad-dalu unrhyw daliadau grant yr ydych wedi'u cael.**

# Adran 1 Datganiadau a chydsyniad

**Crynodeb Defnydd o Wybodaeth**

Cyllid Myfyrwyr Cymru yw'r gwasanaeth cyllid i fyfyrwyr a ddarperir gan y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig (SLC), wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae Gweinidogion Cymru wedi trosglwyddo swyddogaethau penodol yn ymwneud â cheisiadau cyllid i fyfyrwyr i SLC.

Defnyddir yr wybodaeth a nodir yn y ffurflen hon er mwyn prosesu'r cais am Grant Dysgu Llywodraeth Cymru Addysg Bellach gan SLC ac unrhyw waith gweinyddol dilynol yn ymwneud â'r cyllid. Esbonnir pob adran sy'n gofyn am eich data personol isod:

- Adran 2 **Manylion y myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i:
  - gyfrifo a ydych yn gymwys ar gyfer GDLIC AB yn seiliedig ar unrhyw gyllid blaenorol a dderbynioch;
  - nodi pa aelodau o'r teulu mae angen eu cynnwys yn eich cais er mwyn i ni allu cyfrifo eich hawl; ac
  - cysylltu â chi neu eich trydydd parti enwebedig os oes angen.
- Adran 3 **Eich manylion taliad –** fyddwn ni ddim ond yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon os byddwn angen gwneud taliadau i chi neu eich trydydd parti enwebedig.
- Adran 4 **Manylion ysgol neu goleg y myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo os ydych chi'n astudio mewn ysgol/coleg sy'n gymwys i dderbyn GDLIC AB.
- Adran 5 **Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio'r myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo os ydych chi'n gymwys i dderbyn GDLIC AB ac i gadarnhau eich hunaniaeth.
- Adran 6 **Hanes preswylio'r myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n gymwys i dderbyn GDLIC AB yn seiliedig ar eich hanes preswylio yn unig.
- Adran 7 **Manylion annibyniaeth y myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n ddibynnol neu'n annibynnol. Mae hyn yn bwysig oherwydd byddwn wedyn yn gallu gofyn i chi am yr wybodaeth ariannol ac/neu dystiolaeth benodol fyddwn angen i gyfrifo os ydych chi'n gymwys i dderbyn GDLIC AB.
- Adran 8 **Manylion ariannol y myfyriwr –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir gennych yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n gymwys i dderbyn GDLIC AB yn seiliedig ar incwm eich cartref yn unig. Mae hyn yn golygu rhannu rhywfaint o wybodaeth gyda HMRC.
- Adran 9 **Manylion ariannol Rhiant(Rhieni)/Partner –** byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a ddarperir eich rhiant(rhieni)/partner yn yr adran hon i gyfrifo a ydych chi'n gymwys i dderbyn GDLIC AB yn seiliedig ar incwm eich cartref yn unig.

Am ragor o wybodaeth ynghylch sut y defnyddir eich gwybodaeth, pwy sy'n gyfrifol amdani, a'r hawliau sydd gennych mewn cysylltiad â hyn, gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael ar-lein ar **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/ab/hysbyseb-preifatrwydd**

Os nad oes gennych chi fynediad i'r rhyngrwyd, ffoniwch ni ar **0300 200 4050** a gallwn anfon copi atoch.

**1.2** Trydydd parti awdurdodedig

Mae parti awdurdodedig yn golygu rhywun sydd wedi ei awdurdodi i weithredu ac/neu i dderbyn taliadau ar ran y myfyriwr. Mae angen tystiolaeth megis dogfennaeth gan Awdurdodau Lleol neu Bŵer Atwrnai. **Gweler 1.2 isod**.

**Mae angen i ni weld prawf eich bod yn meddu ar yr awdurdod i weithredu a/neu ddal cronfeydd ar ran y myfyriwr, a dylech anfon:**

- dogfennaeth gan gorff cyhoeddus (eich Awdurdod Lleol er enghraifft) neu Atwrneiaeth sy'n cadarnhau eich bod yn meddu ar yr awdurdod i weithredu a/neu dderbyn taliadau ar ran y myfyriwr.

**Mae enghreifftiau yn cynnwys:**

- datganiad o anghenion addysgol arbennig y myfyriwr; **neu**
- lythyr sy'n dangos eich bod yn cael Lwfans Byw i'r Anabl (DLA); **neu**
- lythyr yn dangos Taliadau Annibyniaeth Personol (PIP) ar ran y myfyriwr.

# Adran 2 Manylion y myfyriwr

**2.4** Manylion personol

**Mae angen i ni gael prawf o'ch oedran a'ch manylion personol, darparwch un o'r canlynol:**

- eich manylion pasbort dilys y Deyrnas Unedig yn unol â'r cais yn Adran 5 y ffurflen gais; **neu**
- eich pasbort **gwreiddiol** dilys nad yw o'r Deyrnas Unedig; **neu**
- eich tystysgrif geni/mabwysiadu **wreiddiol**; **neu**
- eich Caniatâd Preswylio Biometrig **gwreiddiol**.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth y defnyddir eich caniatâd; ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn. Os ydych chi'n darparu eich manylion pasbort y Deyrnas Unedig dilys yn Adran 5, nid oes angen i chi anfon eich pasbort atom.

Os yw eich pasbort y Deyrnas Unedig wedi dod i ben, rhaid i chi anfon eich tystysgrif geni neu fabwysiadu **gwreiddiol**.

**Os yw'ch enw wedi newid o'r un a ddangosir ar eich dogfennau, bydd angen i chi anfon prawf atom o'r ffaith bod eich enw wedi newid hefyd, all fod yn:**

- dystysgrif briodas; **neu'n**
- weithred newid enw.

Rhaid i'r holl eitemau tystiolaeth a anfonwch fod yn ddogfennau **gwreiddiol**.

**2.7** Statws priodasol

**Rydym hefyd angen prawf wedi o'ch statws presennol, anfonwch:**

- eich gorchymyn amodol; **neu**
- lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws

**Os ydych chi bellach wedi ysgaru, anfonwch:**

- eich archddyfarniad absoliwt; **neu**
- eich gorchymyn terfynol; **neu**
- eich gorchymyn diddymiad; **neu**
- lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

**Os yw eich partneriaeth sifil wedi ei diddymu, anfonwch:**

- eich gorchymyn amodol; **neu**
- eich gorchymyn terfynol; **neu**
- eich gorchymyn diddymiad; **neu**
- lythyr gan eich cyfreithiwr sy'n cadarnhau'ch statws.

**Os ydych yn briod**

- eich tystysgrif briodas **wreiddiol**.

**Os ydych mewn partneriaeth sifil**

- eich tystysgrif partneriaeth sifil **wreiddiol**.

**Rydw i nawr yn byw gyda phartner**

Os ydych bellach yn byw gyda phartner ond wedi ysgaru/gwahanu/gweddw neu wedi diddymu eich partneriaeth sifil, anfonwch y dystiolaeth berthnasol a restrir uchod atom.

# Adran 4 Manylion ysgol neu goleg eich myfyriwr

**4.2** Manylion y cwrs

Mae cyrsiau Sgiliau Byw'n Annibynnol neu, os ydych chi'n astudio yn Lloegr, Paratoi ar gyfer Bywyd fel Oedolyn, yn gymwys ar gyfer cyllid. Nid yw cyrsiau ar lefel 4 neu uwch.

Gall eich ysgol neu goleg roi gwybod i chi os yw'ch cwrs yn gymwys.

**4.3** Dyddiad dechrau'r cwrs

Os mai dim ond y mis a'r flwyddyn pan mae eich cwrs yn cychwyn fyddwch chi'n ei roi i ni, byddwn yn rhoi'r dyddiad fel y cyntaf o'r mis.

**4.5** A ydych yn cael lwfans yn barod?

Nid oes modd i chi gael y grant hwn tra'ch bod yn cael lwfans neu gyllid cyhoeddus cyfatebol neu os ydych wedi cael eich cymeradwyo am lwfans neu gyllid cyhoeddus cyfatebol.

Os darganfyddir eich bod yn cael y grant hwn ac unrhyw un o'r ffynonellau cyllido hyn, bydd yn rhaid i chi ad-dalu unrhyw daliadau grant yr ydych wedi'u cael.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr

**Dinasyddion o'r UE ac AEE**

Mae'r rhestr ddiweddaraf o holl aelod-wladwriaethau'r UE ac AEE ar gael yn: **www.homeoffice.gov.uk**

**Preswylio fel arfer**

Golyga 'preswylio fel arfer' eich bod yn byw'n arferol ac yn gyfreithiol yn y DU, AEE, y Swistir a Gibraltar o ddewis. Os ydych chi wedi symud i'r DU i ddibenion addysg, rhaid eich bod wedi bod yn preswylio fel arfer yn yr AEE, y Swistir neu Gibraltar cyn i chi fod yn preswylio fel arfer yn y DU.

**Egwyl mewn hawl preswylio**

Os nad ydych wedi bod yn preswylio fel arfer ar gyfer y cyfnod gofynnol, efallai y byddwch yn dal yn gymwys i gael cyllid os allwch chi ddangos fod yr egwyl yn un dros dro a'ch bod yn bwriadu dychwelyd i'r Deyrnas Unedig. Os oedd yr egwyl mewn hawl preswylio oherwydd gwasanaeth gweithredol yn y Lluoedd Arfog, rydych yn dal i gael eich ystyried i fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig.

**Mae enghreifftiau o egwyliau dros dro derbyniol yn cynnwys:**

- blwyddyn allan
- gwaith gwirfoddol dramor
- rhieni yn gweithio dramor ar gontract cyflogaeth dros do

**Mae angen i chi anfon tystiolaeth atom a all gynnwys, ond nad yw'n gyfyngedig i:**

- lythyr gan eich darparwr dysgu yn cadarnhau eich blwyddyn allan
- llythyr gan y cyflogwr ar bapur pennawd yn cadarnhau eich cyflogaeth dros dro a'r dyddiadau a weithiwyd
- llythyr gan y Lluoedd Arfog os yn berthnasol
- teithebau neu drwyddedi gwaith dros dro yn ogystal â'r uchod

Rhaid i chi hefyd fod yn preswylio fel arfer yng Nghymru ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs ac yn gallu cael LCA.

Os oes angen i chi angen eich Hawlen Fiometrig Preswylio fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw gwestiwn yn yr adran hon, gallwn eich sicrhau mai dim ond i ddilysu eich hunaniaeth y'i defnyddir, ac na fydd unrhyw ddata arall yn cael ei ddefnyddio na storio.

**Disgynyddion uniongyrchol a pherthnasau uniongyrchol yn y llinell esgynnol**

Mae disgynnydd uniongyrchol yn blentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati i unigolyn. Rydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i'ch mam, eich nain, ein hen nain, ac ati.

Perthynas uniongyrchol yn y llinell esgynnol yw rhiant, nain neu daid, hen nain neu daid ac ati i unigolyn. Rydych chi'n berthynas uniongyrchol yn llinell esgynnol eich plentyn, ŵyr neu wyres, gor-ŵyr neu or-wyres ac ati.

## 5.1 Gwladolyn y DU

Os oes gennych basbort y Deyrnas Unedig dilys, rhowch y manylion hyn. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i chi anfon eich pasbort atom.

Os nad oes gennych chi basbort dilys y Deyrnas Unedig, bydd angen i chi anfon eich tystysgrif geni wreiddiol atom.

Ni allwn dderbyn pasbort sydd wedi dod i ben fel prawf o'ch hunaniaeth.

## 5.2 Gwladolyn Gwyddelig

Mae angen i chi anfon:

- eich pasbort Gweriniaeth Iwerddon gwreiddiol; **neu**
- eich gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol.

Ni allwn dderbyn pasbort sydd wedi dod i ben fel prawf o'ch hunaniaeth.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.3** Aelod o deulu gwladolyn y DU

**5.4** Aelod o deulu gwladolyn y DU - parhad

I fod yn aelod o'r teulu, rhaid i chi fod yn:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- plentyn neu lysblentyn;

neu ddisgynnydd uniongyrchol arall o wladolyn y DU.

Os atebwch 'Ydw' i'r cwestiwn hwn, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn aelod o deulu gwladolyn y DU trwy anfon ei basbort/phasbort.

Rhaid i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas i'r gwladolyn y DU. Gallai hyn fod:

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil; **neu**
- dystysgrif geni yn dangos eich enw ac enw'r gwladolyn y DU; a
- thystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil os ydych chi neu'r gwladolyn y DU yn llys-blentyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel disgynnydd uniongyrchol i wladolyn y DU, rhaid i chi fod dan 21 oed; **neu** ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.

**5.5** Statws preswylydd sefydlog neu statws preswylydd cyn-sefydlog dan y Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE

I gael cyllid i fyfyrwyr fel gwladolyn yr UE gyda statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog, mae angen i chi brofi eich statws mewnfudo. Mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu.

Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth. Os na fyddwch chi'n darparu eich cod rhannu, rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn wladolyn yr UE, trwy anfon eich pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol yr UE atom.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.6** Plentyn Gwladolyn y Swistir

Rhaid eich bod chi a'ch rhiant neu lys riant wedi derbyn statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Rhaid eich bod yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE, neu'r Swistir am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Rhaid i chi anfon pasbort neu gerdyn adnabod eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gwladolyn y Swistir, rhaid i'ch rhiant sy'n wladolyn y Swistir fod yn preswylio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd eich cwrs. Rydym angen llythyr wedi ei lofnodi gan eich rhiant Swisaidd yn datgan ei gyfeiriad yn y Deyrnas Unedig, a'i fod yn byw yno ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn academaidd eich cwrs. Rhaid i'r rhiant hefyd anfon un o'r dogfennau canlynol:

- Datganiad banc
- Slip cyflog
- Cytundeb tenantiaeth/datganiad morgais
- Bil cyfleustodau
- Gohebiaeth gan awdurdod lleol
- Gohebiaeth gan adran llywodraeth

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad statws Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich rhiant neu lys-riant, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni.

Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Wrth roi eich codau rhannu, byddwn yn gwirio'r manylion gyda'r Swyddfa Gartref ac yn cadarnhau'r wybodaeth rydych wedi ei rhoi. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.7** Gweithiwr Mudol o'r AEE neu'r Swistir

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith yn y DU, rhaid eich bod chi a'ch aelod o'r teulu fod wedi derbyn statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog trwy'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE.

Rhaid i'r gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd ddarparu prawf o'i genedligrwydd ynghyd â'i basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

Fel prawf o statws cyflogaeth cyfredol y gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd sy'n gweithio, wedi gweithio neu'n chwilio am waith, rhaid darparu un o'r canlynol yn dystiolaeth:

- P60 neu lythyr gan gyflogwr os yw'n gweithio ar hyn o bryd.
- Cyfrifon archwiliedig, ffurflenni treth neu fanylion incwm os yn hunangyflogedig.
- Llythyr gan gyflogwr yn cadarnhau'r bwriad i barhau i weithio tra'n astudio.
- P45, P60 neu lythyr gan gyflogwr blaenorol os yw'n chwilio am waith ar hyn o bryd neu wedi gweithio'n flaenorol yn y Deyrnas Unedig.

Os mai'ch plentyn, mab yng nghyfraith, merch yng nghyfraith, plentyn eich partner sifil neu ddisgynnydd uniongyrchol arall yw'r gweithiwr, rhaid i chi fod yn ddibynnol arno/arni. Os ydych chi'n ddisgynnydd uniongyrchol i wladolyn yr AEE, rhaid i chi fod dan 21, neu ddibynnydd yr unigolyn neu gymar neu bartner sifil yr unigolyn.

Nid yw hyn yn berthnasol mewn achosion ble mae'r rhiant gweithiwr AEE wedi marw neu adael y DU a bod y plentyn yn aros ymlaen i gwblhau ei addysg yn y DU.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu cadarnhad o'ch dyfarniad Statws Preswylydd Sefydlog gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich aelod o'r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

Os ydych chi neu'ch aelod o'r teulu yn Weithiwr y Ffin, anfonwch hawlen y Gweithiwr y Ffin neu dystiolaeth gyfatebol.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.8** Aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu Swisaidd a ddaeth i'r DU cyn 31 Rhagfyr 2020

I gael cyllid i fyfyrwyr fel aelod o deulu gwladolyn yr AEE neu'r Swistir rhaid bod g an eich aelod o'r teulu fod statws preswylydd sefydlog neu cyn-sefydlog yn y DU. Rhaid eich bod wedi gwneud cais i Gynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE o fewn tri mis i gyrraedd y DU.

Rhaid i'r gwladolyn o'r AEE neu Swisaidd ddarparu prawf o'i genedligrwydd ynghyd â'i basbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom fel prawf o'ch perthynas.

Er mwyn profi eich statws mewnfudo, mae angen i chi ddarparu eich Tystysgrif o'ch Cais i'r Cynllun Preswylio'n Sefydlog i Ddinasyddion yr UE gan y Swyddfa Gartref i ni, a chod rhannu. I brofi statws mewnfudo eich aelod o'r teulu, mae angen i chi ddarparu ei ddyddiad/dyddiad geni a chod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r codau. Yn dilyn eu creu, bydd y codau'n dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted ag y byddwch yn creu'ch cod rhannu er mwyn i ni allu gwirio eich statws o fewn y 90 niwrnod.

Byddwn yn defnyddio eich cod rhannu i gadarnhau eich hunaniaeth gyda'r Swyddfa Gartref. Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas. Byddwn yn dal angen tystiolaeth hunaniaeth gan eich rhiant neu lys-riant.

# **Adran 5** Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.9.1** Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)

Os ydych wedi cael caniatâd dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), byddwch wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hyn.

Anfonwch eich llythyr Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo gwreiddiol, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Dyddiad dod i ben**

Os ydych wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

**Cynllun Ex-Gratia Staff Affganaidd a Gyflogwyd yn Lleol**

Roedd y cynllun hwn ar gyfer gweithwyr blaenorol llywodraeth y Deyrnas Unedig a ymddiswyddodd neu a ddiswyddwyd o'u swydd. Nid yw gwladolion Affganaidd sydd wedi eu hail-leoli i'r Deyrnas Unedig dan y cynllun hwn yn gymwys i dderbyn cyllid i fyfyrwyr.

**5.9.2 Aelod o deulu rhywun sydd â hawl dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS)**

Os yw eich aelod o'r teulu wedi cael caniatâd dan y Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid (ARAP) neu'r Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan (ACRS), bydd wedi derbyn llythyr gan y Swyddfa Gartref yn cadarnhau hyn.

Anfonwch eu llythyr Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo gwreiddiol, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn.

Dim ond er mwyn dilysu ei hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio ei Hawlen Breswylio Fiometrig, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**Dyddiad dod i ben**

Os yw eich:

- gŵr, gwraig, partner sifil; neu
- riant (neu rieni), llys-riant

wedi derbyn y statws hwn heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.10** Statws wedi setlo (caniatâd amhenodol i fynediad neu aros neu hawl preswylio)

Mae ‘statws wedi setlo’ yn golygu y gallwch fyw yn y Deyrnas Unedig yn barhaus heb i’r Swyddfa Gartref osod unrhyw gyfyngiadau ar am ba hyd y gallwch aros.

Rydych yn rhydd o unrhyw gyfyngiadau os yw unrhyw un o’r canlynol yn berthnasol:

- Rydych yn ddinesydd Prydeinig.
- Rydych wedi cael caniatâd amhenodol i fynediad neu aros.
- Mae gennych hawl i breswylio yn y Deyrnas Unedig.

Gellir cael gwybodaeth bellach ynghylch materion eraill sy’n ymwneud â mewnfudo gan y Swyddfa Gartref ar **www.homeoffice.gov.uk**

Os nad oes gennych chi basbort Prydeinig neu Ganiatâd Preswylio Biometrig sy’n cadarnhau’ch statws mewnfudo, ond bod gennych chi lythyr gan y Swyddfa Gartref sy’n gwneud hynny, anfonwch y llythyr hwn gyda’ch ffurflen gais.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni’n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.11** Caniatâd yn ôl disgresiwn o ganlyniad i gais lloches aflwyddiannus

**5.12** Caniatâd yn ôl disgresiwn (ble na wnaethpwyd cais am loches)

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

Ganiatâd yn ôl Disgresiwn i neu Aros yn y Deyrnas Unedig:

- o ganlyniad i gais aflwyddiannus am loches; neu
- ble na wnaethpwyd cais am loches

bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

Ganiatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.13** Caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd teuluol, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.14** Caniatâd i aros ar sail bywyd preifat

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig ar sail bywyd preifat, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.15** A ydych chi neu aelod o'ch teulu wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR), yn dilyn cais aflwyddiannus am 'ganiatâd mynediad neu aros' ar sail bywyd teuluol neu breifat?

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig tu allan i'r rheolau mewnfudo, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd â Chaniatâd yn Ôl Disgresiwn i Aros. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn y statws hwn, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

**Dyddiad y daw i ben**

Os oes gennych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

## 5.16 Person heb Wladwriaeth

Os cawsoch chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth yn y Deyrnas Unedig, byddwch chi neu nhw wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel Person heb Ddinasyddiaeth, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

## 5.17.1 Cynlluniau Wcráin

I brofi eich bod wedi cael caniatâd yn y DU o dan Gynllun Wcráin mae angen i chi roi cod rhannu i ni. Ewch i **www.gov.uk/view-prove-immigration-status** i greu'r cod. Yn dilyn ei greu, bydd y cod yn dod i ben wedi 90 niwrnod. Dylech ddychwelyd eich ffurflen gais cyn gynted â phosibl ar ôl cynhyrchu'r cod rhannu.

Pan fyddwch chi'n rhoi'ch cod rhannu i ni, does dim angen i chi anfon unrhyw dystiolaeth hunaniaeth oni bai bod ei angen fel prawf o'ch perthynas.

Os nad oes gennych god rhannu dylech ddarparu tystiolaeth i gadarnhau eich statws mewnfudo. Anfonwch eich Trwydded Breswylio Fiometrig atom. Os nad oes gennych Drwydded Preswylio Fiometrig, dylech anfon eich pasbort gyda phortread yn cadarnhau eich caniatâd neu'ch dogfen `caniatâd i deithio'.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Breswylio Fiometrig neu ddogfen `caniatâd i deithio', ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.17.2** Aelod o deulu gwladolyn Wcráin

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi cael caniatâd yn y Deyrnas Unedig o dan Gynllun Wcráin bydd angen i chi ddarparu eu cod rhannu a dyddiad geni neu anfon tystiolaeth yn cadarnhau eu statws mewnfudo. Bydd angen i chi hefyd anfon prawf o'ch perthynas â nhw.

Mae'n rhaid eich bod wedi bod yn briod neu'n bartner sifil i'r person â chaniatâd ar ddyddiad y cais am ganiatâd.

Os ydych chi'n blentyn neu'n llysblentyn i'r person sydd â chaniatâd, mae'n rhaid mai chi oedd y plentyn neu'r llysblentyn ar ddyddiad y cais am ganiatâd, a hefyd o dan 18 oed ar y dyddiad hwnnw.

**5.18** Statws Ffoadur

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi gwneud cais llwyddiannus am statws ffoadur yn y Deyrnas Unedig dan amodau Confensiwn 1951 y Cenhedloedd Unedig ar Ffoaduriaid, a'ch bod chi neu nhw wedi cael statws ffoadur, bydd y Swyddfa Gartref wedi anfon llythyr a dogfen statws mewnfudo atoch chi neu nhw, sy'n cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r ddogfen statws mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd â statws ffoadur. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd â'r statws hwn os nad chi sydd â'r statws ffoadur.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn ffoadur, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i'r Swyddfa Gartref fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil ffoadur, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais am loches.

**Dyddiad y daw i ben**

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi derbyn statws ffoadur heb ddyddiad terfyn, dylech nodi'r bwlch dod i ben fel Amh (amherthnasol).

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

## 5.19 Diogelwch Dyngarol

Os ydych chi neu'ch:

- gŵr, gwraig, partner sifil; **neu**
- riant (neu rieni), llys riant

wedi cael Diogelwch Dyngarol, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn llythyr a dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a'r Ddogfen Statws Mewnfudo, fel arfer yn basbort neu Ganiatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi derbyn Diogelwch Dyngarol. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn statws Diogelwch Dyngarol os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn person sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel gŵr, gwraig neu bartner sifil rhywun sydd wedi derbyn statws Amddiffyniad Dyngarol, rhaid eich bod yn ŵr, gwraig neu bartner sifil y person hwnnw ar adeg cyflwyno'r cais.

## 5.20 Plentyn Gweithiwr Twrcaidd

I gael cyllid i fyfyrwyr fel plentyn gweithiwr o Dwrci, rhaid bod eich rhiant o Dwrci yn gweithio yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs. Rhaid eich bod yn preswylio fel arfer yn y DU, Gibraltar, AEE y Swistir neu Dwrci am dair blynedd cyn dyddiad cyntaf eich blwyddyn academaidd gyntaf.

Anfonwch y llythyr gwreiddiol gan y Swyddfa Gartref a'ch Caniatâd Preswylio Biometrig.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Rhaid i chi ddarparu tystiolaeth eich bod yn blentyn i weithiwr o Dwrci trwy anfon Gwreiddiol pasbort neu gerdyn adnabod cenedlaethol gwreiddiol eich rhiant. Rhaid i chi hefyd anfon eich tystysgrif geni chi neu ddogfen gyfatebol atom.

Fel prawf o gyflogaeth eich rhiant yn y DU, rhaid i chi anfon ei gontract/chontract cyflogaeth.

Rhaid i chi hefyd anfon llythyr y Swyddfa Gartref yn cadarnhau bod gan eich rhiant hawl estynedig i aros yn y DU wedi 31 Rhagfyr 2020.

# Adran 5 Manylion cenedligrwydd a hawl preswylio eich myfyriwr (parhad)

**5.21** Caniatâd i Aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016

Os ydych wedi cael caniatâd i aros yn y DU o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016, neu os ydych wedi cael caniatâd oherwydd llinach fel plentyn dibynnol rhywun sydd, naill ai byddwch chi neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan y Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael 'caniatâd mynediad neu aros' dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r unigolyn os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd wedi cael 'caniatâd mynediad neu aros' yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig dan Adran 67 Deddf Mewnfudo 2016, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**5.22** Caniatâd Calais

Os ydych wedi cael caniatâd Calais yn y DU, neu os ydych wedi cael caniatâd oherwydd llinach fel plentyn dibynnol i rywun sydd wedi cael dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y DU, naill ai y byddwch chi neu nhw wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y DU yn cadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd Calais. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd Calais os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

**5.23** Caniatâd i aros fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig

Os ydych wedi cael caniatâd i aros fel dioddefwr trais neu gam-drin domestig, neu os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel dioddefwr cam-drin domestig os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel dioddefwr trais domestig, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

**5.24** Hawl i aros fel partner mewn profedigaeth

Os ydych wedi cael caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth, neu os ydych chi'n blentyn dibynnol rhywun sydd, byddwch chi, neu nhw, wedi derbyn dogfen statws mewnfudo gan Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig i gadarnhau hyn.

Anfonwch lythyr gwreiddiol y Swyddfa Gartref a Chaniatâd Preswylio Biometrig y sawl sydd wedi cael caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth. Dylech hefyd anfon tystiolaeth o'ch perthynas i'r sawl sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth os nad chi yw hyn.

Dim ond er mwyn dilysu eich hunaniaeth a statws preswylio fyddwn ni'n defnyddio eich Hawlen Fiometrig Preswylio, ni fyddwn yn defnyddio na storio unrhyw ddata arall o hyn.

Os ydych chi'n hawlio cyllid i fyfyrwyr fel plentyn neu lys-blentyn dibynnol unigolyn sydd wedi derbyn caniatâd i aros fel partner mewn profedigaeth, dim ond os oeddech chi dan 18 oed ar adeg cais eich rhiant i Swyddfa Gartref y Deyrnas Unedig fyddwch chi'n cael eich ystyried i fod yn 'blentyn'.

# Adran 7 Manylion annibyniaeth y myfyriwr

**7.1** Os byddwch yn 25 oed neu'n hŷn ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs

**Bydd angen i chi anfon:**

- eich tystysgrif geni/mabwysiadu **wreiddiol**; **neu**
- eich pasbort **gwreiddiol** dilys.

Os ydych chi'n darparu eich manylion pasbort y Deyrnas Unedig dilys yn adran 5, nid oes angen i chi anfon eich pasbort atom.

Os byddwch yn gyfrifol am blentyn ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs

**Bydd angen i chi anfon:**

- eich datganiad Budd-dal Plant diweddaraf; **neu**
- tystysgrif geni **wreiddiol** eich plentyn **a** chadarnhad o'ch cyfeiriad cyfredol.

Os byddwch wedi bod yn cynnal eich hun yn ariannol am dair blynedd neu fwy ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs

**Bydd angen i chi anfon:**

- eich P60 sy'n ddyddiedig o leiaf 3 blynedd yn ôl; **neu'ch**
- datganiad budd-daliadau sy'n ddyddiedig o leiaf 3 blynedd yn ôl.

Os ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs nad ydych wedi byw dan ofal cyfreithiol eich rhieni

Mae hyn yn berthnasol i fyfyrwyr dan 25 oed yn unig, ac ni fyddwn yn gofyn i chi am dystiolaeth ariannol.

Os byddwch chi'n 25 oed ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd eich cwrs, byddwn yn gofyn i chi ddarparu gwybodaeth ariannol.

Os ar unrhyw adeg o 14 oed hyd at ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs:

- nad ydych wedi bod yn byw dan ofal cyfreithlon eich rhieni am gyfanswm o 13 wythnos neu fwy; **neu**
- eich bod dan orchymyn gwarchodaeth arbennig, yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol, neu wedi derbyn llety gan Awdurdod Lleol am o leiaf 13 wythnos.

Os cawsoch eich dychwelyd i ofal cyfreithiol eich rhieni rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs), yna gellir eich ystyried yn rhywun sy'n gadael gofal o hyd.

**Bydd angen i chi anfon y canlynol atom:**

Llythyr can eich Awdurdod Lleol yn cadarnhau eich cyfeiriad cyfredol ac os ydych chi, neu os ydych wedi bod, mewn gofal.

Rhaid i'r llythyr hwn fod ar bapur pennawd. Bydd angen iddo gael ei lofnodi a'i ddyddio gan swyddog awdurdodedig o'ch Awdurdod Lleol, a bydd angen iddo gynnwys stamp swyddogol.

Os byddwch yn briod neu mewn partneriaeth sifil neu wedi bod yn briod neu wedi bod mewn partneriaeth sifil ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs

**Bydd angen i chi anfon:**

- eich tystysgrif priodas neu bartneriaeth sifil **wreiddiol**.

# Adran 7 Manylion annibyniaeth y myfyriwr (parhad)

Os byddwch wedi ymbellhau o'ch rhieni neu os yw'ch dau riant wedi marw ar ddiwrnod cyntaf eich cwrs

**Bydd angen i chi anfon cadarnhad atom sy'n ddyddiedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gan berson proffesiynol y tu allan i'ch teulu sy'n gwybod am eich amgylchiadau.**

Gallwch anfon **un** o'r canlynol:

- llythyr gan eich gweithiwr cymdeithasol; **neu**
- **os gwnaethoch chi hawlio Cymhorthdal Incwm, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Cynhwysol pan oeddech dan 18 oed** – llythyr gan eich swyddfa Canolfan Byd Gwaith leol sy'n dangos eich bod wedi cael budd-daliadau o ganlyniad i'r ffaith eich bod wedi ymbellhau; **neu**
- **os chwalodd eich perthynas gyda'ch rhieni pan oeddech yn yr ysgol neu'r coleg** – llythyr gan weithiwr cynghori/tiwtor personol/athro sy'n cadarnhau'ch amgylchiadau.

Mae'ch dau riant wedi marw

**Bydd angen i chi anfon:**

- y ddwy dystysgrif marwolaeth **wreiddiol** neu gopïau wedi ardystio o'r tystysgrifau marwolaeth.

# Adran 8 Manylion ariannol y myfyriwr

# Adran 9 Manylion ariannol Rhiant(Rhieni)/Partner

**Rhiant (neu rieni)/partner**

Bydd yr incwm uwch gennych chi neu'r myfyriwr yn cael ei ddefnyddio i asesu hawl y myfyriwr.

**Yn hunanasesu**

**Os llenwoch ffurflen dreth ar-lein**

Dylech droi at eich ffurflen dreth a gadwyd ar-lein i gael y ffigurau incwm sy'n ofynnol yn yr adran hon.

**Os llenwoch ffurflen dreth bapur**

Mae canllaw ar-lein ar gael i'ch helpu i ateb y cwestiynau yn yr adran hon, sydd ar gael o: **www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/gdllcab** neu os hoffech i ni anfon copi atoch, ffoniwch ni ar **0300 200 4050**.

**Rhannu data**

Byddwn yn cadarnhau'r wybodaeth ariannol y byddwch yn ei darparu gyda Chyllid a Thollau EM (HMRC). Fe gedwir yr wybodaeth hon yn ddiogel ac yn gyfan gwbl yn unol â darpariaethau'r ddeddfwriaeth diogelu data perthnasol.

Os na fyddwch yn darparu eich rhif Yswiriant Gwladol ar y ffurflen gais, byddwn yn gofyn i chi ddarparu eich dogfennau ariannol. Os bydd eich rhif Yswiriant Gwladol yn ymddangos ar unrhyw rai o'r dogfennau y byddwch yn eu hanfon atom i gefnogi cais, byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon ac yn ei rhannu ac yn ei chadarnhau gyda HMRC er mwyn cael gwybodaeth ariannol fanwl amdanoch chi.

## Rhan A

**Gwybodaeth ariannol ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23**

**8.1/9.1** Os yw incwm eich cartref wedi gostwng yn barhaol ers 2022-23

Er mwyn bod yn gymwys i gael y grant hwn, rhaid i gyfanswm incwm eich cartref fod yn £18,370 neu'n llai. Efallai y bydd y myfyriwr yn gymwys ar gyfer y grant hwn os yw incwm yr aelwyd wedi gostwng yn is na £18,370 yn y flwyddyn gyfredol.

Rydym angen tystiolaeth o incwm gan y rhiant a'i bartner/phartner neu'r myfyriwr a'i riant(rieni). Er enghraifft, os oes dau riant yn yr aelwyd a bod yr incwm wedi gostwng ar gyfer un rhiant, rhaid i'r llall hefyd ddarparu tystiolaeth o'i enillion, yn ogystal â'r myfyriwr.

**Mae angen i ni gael prawf o incwm presennol eich cartref; bydd angen i chi anfon y canlynol atom:**

- eich llythyr Dyfarniad Credyd Cynhwysol diweddaraf; **neu'ch**
- llythyr Cymhorthdal Incwm diweddaraf; **neu'ch**
- slipiau cyflog ar gyfer y 3 mis diwethaf; **ne**
- **Os ydych yn destun hunanasesiad** – llythyr gan eich cyfrifydd ar bapur pennawd sy'n nodi eich incwm dros y tri mis diwethaf. Rhaid bod y llythyr hwn wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio.

Os yw eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Cynhwysol yn dangos unrhyw incwm o fudd-daliadau trethadwy neu gyflogaeth, rhaid i chi hefyd anfon tystiolaeth o'r incwm hwn.

A phrawf sy'n dangos bod incwm eich cartref wedi gostwng yn barhaol; dylech anfon y canlynol atom:

- eich P45; **neu'ch**
- llythyr colli gwaith; **neu**
- lythyr gan eich cyflogwr ar bapur pennawd sy'n esbonio'r gostyngiad parhaol mewn incwm. Rhaid bod y llythyr hwn wedi cael ei lofnodi a'i ddyddio.

# Adran 8 Manylion ariannol y myfyriwr (parhad)

# Adran 9 Manylion ariannol Rhiant(Rhieni)/Partner (parhad)

| | | |
|---|---|---|
| **8.5/9.4** g | Incwm o gyflogau | Os cawsoch chi **gildyrnau a thaliadau eraill** na nodwyd ar eich P60 fel rhan o'ch cyflog ar gyfer blwyddyn dreth 2022-23, bydd angen i chi gynnwys y ffigwr hwn pan fyddwch yn nodi cyfanswm eich incwm o gyflogaeth. |
| g | Incwm o fudd-daliadau trethadwy'r wladwriaeth | **Dim ond incwm a gafwyd ar gyfer y budd-daliadau canlynol y dylech gynnwys:**<br>• Lwfans Profedigaeth<br>• Lwfans Gofalwr<br>• Lwfans Cyflogaeth a Chymorth Seiliedig ar Gyfraniadau<br>• Budd-dal ymddeol graddedig<br>• Budd-dal Analluogrwydd (dim ond y swm a gafwyd ar ôl 28 wythnos o analluogrwydd y dylech ei gynnwys)<br>• Budd-dal Marwolaeth Ddiwydiannol<br>• Lwfans Ceisio Gwaith<br>• Tâl Mabwysiadu Statudol<br>• Tâl Mamolaeth Statudol<br>• Tâl Tadolaeth Statudol<br>• Tâl Salwch Statudol<br>• Lwfans Rhiant Gweddw |
| **8.7/9.6** g | Incwm o gynilion a buddsoddiadau | Er mwyn gwneud y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi ei rannu yn bedair rhan ar wahân. Efallai'ch bod wedi neu efallai na fyddwch wedi cael incwm o bob rhan, dylech ddweud wrthym am y rhai yr ydych wedi'u cael yn unig.<br>Dim ond swm y llog/incwm a gawsoch o gynilion a buddsoddiadau yn ystod blwyddyn dreth 2022-23 ddylech ddweud wrthym amdano, ac nid swm go iawn eich cynilion neu'r symiau yr ydych wedi'u buddsoddi. |
| g | Cyfanswm y llog gan fanciau, cymdeithasau adeiladu a chwmnïau buddsoddi yn y DU | Llog gros o'r DU yw hwn (cyn didynnu treth ohono).<br>Rhaid i chi gynnwys llog yr ydych yn ei gael ar eich cyfrifon banc, cymdeithas adeiladu a chynilion eraill oni bai ei fod yn ddi-dreth yn benodol, er enghraifft, Cyfrif Cynilion Unigol (ISA) di-dreth ac ati.<br>Os na wnaethoch chi ddatgan unrhyw incwm o gynilion a buddsoddiad i HMRC, trowch at eich datganiadau banc neu gymdeithas adeiladu i weld y ffigurau hyn. |

# Adran 8 Manylion ariannol y myfyriwr (parhad)
# Adran 9 Manylion ariannol Rhiant(Rhieni)/Partner (parhad)

| | | |
|---|---|---|
| g | Cyfanswm incwm o enillion yswiriant bywyd, gwarannau a phartneriaethau yn y DU | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Llog gan warannau eurymylog a gwarannau eraill yn y DU – swm gros cyn treth<br>• Enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU ac ati, a ystyriwyd fel pe bai treth wedi cael ei dalu arnynt<br>• Enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU ac ati, a ystyriwyd fel pe na bai treth wedi cael ei dalu arnynt<br>• Enillion polisi yswiriant bywyd yn y DU ac ati, gan gyfrifon ISA di-rym<br>• Eich cyfran o log a drethwyd ac ati<br>• Cyfanswm incwm o gynilion di-dreth sy'n drethadwy ar 20%<br>• Incwm trethadwy sy'n drethadwy ar 10%<br>• Incwm trethadwy sy'n drethadwy ar 20% |
| g | Cyfanswm incwm o fuddsoddiadau a difidendau yn y DU | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Difidendau gan gwmnïau o'r DU<br>• Difidendau eraill<br>• Difidendau stoc<br>• Dosbarthiadau anghymwys a benthyciadau cwmni agos wedi'u dileu neu eu rhyddhau<br>• Cynlluniau cyfrannau – swm trethadwy |
| g | Cyfanswm incwm o fuddsoddiad a difidendau tramor | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Difidendau tramor<br>• Llog ac incwm arall o gynilion tramor<br>• Difidendau gan gwmnïau tramor<br>• Incwm difidend a gafwyd gan berson mewn gwlad dramor |
| 8.8/9.7<br>g | Buddion trethadwy mewn nwyddau | **Mae hyn yn cynnwys:**<br>• Asedau a oedd ar gael i gyflogeion (ceir, eiddo, nwyddau neu asedau eraill)<br>• Taliadau a wnaethpwyd ar ran cyflogai<br>• Talebau a chardiau credyd<br>• Llety byw<br>• Lwfans milltiredd a thaliadau teithiwr<br>• Cyfanswm ariannol cyfatebol yr holl geir/faniau sydd ar gael<br>• Cyfanswm ariannol cyfatebol tanwydd ar gyfer yr holl geir/faniau sydd ar gael<br>• Cyfanswm ariannol cyfatebol benthyciadau ar ôl didynnu unrhyw log a delir gan y sawl sy'n benthyg<br>• Yswiriant neu driniaeth feddygol breifat<br>• Buddion a thaliadau a threuliau adleoli cymwys<br>• Gwasanaethau a ddarparwyd<br>• Asedau a roddir at ddefnydd cyflogai<br>• Eitemau eraill (gan gynnwys tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol)<br>• Taliadau treuliau a wneir i'r cyflogai neu ar ei ran |

# Adran 8 Manylion ariannol y myfyriwr (parhad)

# Adran 9 Manylion ariannol Rhiant(Rhieni)/Partner (parhad)

## Rhan B Unrhyw incwm arall

**8.10/9.9** Incwm o hunangyflogaeth

Er mwyn gwneud y cwestiwn hwn yn haws i'w ateb, rydym wedi ei rannu yn ddwy ran. Efallai eich bod wedi neu efallai nad ydych wedi cael incwm o'r ddwy ran, dywedwch wrthym am y rhai a gawsoch yn unig.

Cyfanswm elw wedi'i addasu o fusnesau

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm yr elw wedi ei addasu o'r busnes hwn (wedi'i gyfuno ar gyfer gweithgarwch hunangyflogaeth lluosog)

Cyfanswm elw wedi'i addasu o bartneriaethau

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfran o gyfanswm yr incwm trethadwy a heb ei drethu ac eithrio'r hyn sy'n drethadwy ar sail 10% ac 20%
- Eich cyfran o gyfanswm yr elw wedi'i addasu o'r partneriaethau

**8.11/9.10** Incwm fel Gweinidog yr efengyl

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Incwm trethadwy llai treuliau (Gweinidogion yr efengyl) nad ydynt yn cael eu cynnwys yn eich P60 neu'ch P11D

**8.12/9.11** Unrhyw gyfandaliadau neu incwm trethadwy arall

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Incwm trethadwy arall – cyn didynnu treuliau a threth
- Enillion tramor nad ydynt yn drethadwy yn y DU
- Cyfandaliadau trethadwy
- Cyfandaliadau neu fudd-daliadau a gafwyd o Gynllun Buddion Ymddeol a Ariannwyd gan Gyflogwr heb gynnwys pensiynau
- Tâl colli swydd trethadwy a chyfansymiau a thaliadau iawndal eraill l

**8.13/9.12** Incwm o osod eiddo

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Incwm o eiddo yn y DU
- Incwm o eiddo neu dir mewn gwlad dramor

**8.14/9.13** Incwm o ymddiriedolaethau yn y DU

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl yn y DU – swm Net
- Taliad incwm dewisol gan ymddiriedolaeth breswyl yn y DU – cyfanswm y taliadau gan ymddiriedolaethau budd setlwyr
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm nad yw'n incwm cynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm o gynilion
- Hawl incwm annewisol gan ymddiriedolaeth – swm net yr incwm o ddifidend
- Incwm sy'n drethadwy ar ymsefydlwyr
- Incwm o ystadau yn y DU
- Incwm o ystad dramor

# Adran 8 Manylion ariannol y myfyriwr (parhad)

# Adran 9 Manylion ariannol Rhiant(Rhieni)/Partner (parhad)

**8.15/9.14** Incwm tramor

g

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm trethadwy o bensiynau tramor, budd-daliadau nawdd cymdeithasol a breindaliadau ac ati
- Cyfanswm trethadwy'r holl incwm arall a gafwyd gan berson mewn gwlad dramor ac unrhyw incwm tramor 'wedi'i neilltuo' a dalwyd
- Enillion ar waredu daliadau, cronfeydd tramor ac incwm dewisol gan ymddiriedolaethau amhreswyl
- Budd a gafwyd gan ymddiriedaeth dramor, cwmni neu unigolyn arall
- Enillion ar bolisïau bywyd tramor (swm yr enillion)

**8.16/9.15** Incwm o bensiwn tramor

g

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Gwerth buddion pensiwn yn ychwanegol i'ch Lwfans Oes sydd Ar Gael, a gymerwyd gennych fel cyfandaliad
- Swm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, nad yw'n unol â gordal
- Cyfanswm y taliad anawdurdodedig gan gynllun pensiwn, sy'n unol â gordal
- Ad-daliad cyfraniad gwasanaeth byr trethadwy (cynlluniau pensiwn tramor yn unig)
- Taliad cyfandaliad budd marwolaeth trethadwy (pensiynau tramor yn unig)

**8.17/9.16** Incwm ac enillion tramor eraill

g

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Swm yr hepgorion (eithriadau dan drefniadau trosglwyddo asedau tramor)

## Rhan C

**Didyniadau incwm**

**8.21/9.19** Treuliau a ganiateir y gwnaethoch hawlio gostyngiad yn y dreth arnynt

g

**Mae hyn yn cynnwys:**

- Cyfanswm y treuliau a ganiateir
- Treth dramor nas hawliwyd gostyngiad credyd treth ar ei chyfer
- Treuliau cynhaliaeth a theithio busnes
- Didyniadau sefydlog ar gyfer treuliau
- Tanysgrifiadau a ffioedd proffesiynol
- Lwfansau cyfalaf a threuliau eraill

# Gwybodaeth Ychwanegol

## Pryd fyddaf yn cael fy nhalu?

**Cyn y bydd modd i ni wneud taliadau:**

- rhaid i chi gytuno i, a llofnodi eich Cytundeb GDLlC AB gyda'ch ysgol neu goleg

  **ac**

- mae'n rhaid i'ch ysgol neu'ch coleg ddweud wrthym eich bod wedi bod yn bresennol.

Os byddwch yn mynychu fel y cytunwyd, byddwch yn cael eich talu unwaith bob tymor, yn uniongyrchol i'ch cyfrif banc, cymdeithas adeiladu neu undeb credyd.

Bydd angen i chi sicrhau bod gennym eich manylion cyfrif diweddaraf bob amser, neu ni fydd modd i ni eich talu.

## Sut mae cwyno?

Fel arfer gellir datrys problemau'n gyflym a didrafferth trwy ffonio, esbonio'ch problem a gofyn i'w datrys. Os na fydd hyn yn datrys eich problem yn foddhaol, neu'ch bod yn credu nad yw'r ymagwedd hwn yn briodol, gallwch wneud eich cwyn mewn un o ddau ddull.

- Dros y ffôn:
  **0300 200 4050**
- Drwy e-bost:
  **customer_complaints@slc.co.uk**
- Trwy ysgrifennu at:

  **Customer Relations Unit**
  **Student Loans Company Limited**
  **10 Clyde Place, Glasgow, G5 8DF**

Cofiwch ddyfynnu eich Cyfeirnod Cwsmer (os oes gennych un) ym mhob gohebiaeth.

## Apeliadau

Os ydych am apelio yn erbyn penderfyniad ynghylch eich cymhwysedd ar gyfer LCA, dylech gysylltu â Thîm Gwasanaethau Cwsmeriaid LCA yn gyntaf drwy ffonio **0300 200 4050**.

I anfon apêl, lawrlwythwch ffurflen apelio yn:

**www.cyllidmyfyrwyrcymru.co.uk/cwynion-ac-apeliadau**

Anfonwch eich ffurflen trwy e-bost:

**formal_appeals@slc.co.uk**

Anfonwch eich ffurflen drwy'r post:

**Student Finance Wales Formal Appeal**

**PO Box 220 Llandudno Junction**

**LL30 9GE**

Cofiwch ddyfynnu eich Cyfeirnod Cwsmer (os oes gennych un) ym mhob gohebiaeth.